Great British Railways

• Pecyn Ymgeisydd

Penodi Prif Swyddog Gweithredol

Great British Railways

Saxton Bampfylde

Hydref 2026 Cyfeirnod OCAHA

Great British Railways
Penodi Prif Swyddog Gweithredol

Cynnwys

03 Cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol
04 Cyflwyniad gan y Cadeirydd
05 Amdano GBR
06 Pam fod y rôl hon o bwys
07 Cyfrifoldebau
08 Manyleb y Person
09 Sut i Ymgeisio

Cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Annwyl Ymgeisydd

Ychydig o gyfleoedd arwain sy'n cynnig y cyfle i lunio dyfodol cenedl. Mae rôl Prif Swyddog Gweithredol Great British Railways yn un ohonynt.

Mae'r rheilffordd wedi helpu i ddiffinio hanes economaidd, cymdeithasol a diwydiannol Prydain ers dwy ganrif bron. Wrth inni sefydlu Great British Railways, mae gennym gyfle euraid i greu rheilffordd fwy syml, mwy atebol a mwy arloesol sy'n ymateb yn well i anghenion teithwyr, gwasanaethau nwyddau, cymunedau a threthdalwyr.

Mae'r rôl hon gymaint fwy na dim ond arwain sefydliad trafnidiaeth. Mae'n stiwardiaeth o sefydliad cenedlaethol sy'n cysylltu pobl â chyflogaeth, addysg a chyfleoedd; yn cefnogi busnesau, cysylltedd gwasanaethau nwyddau a thwf economaidd; ac yn cryfhau cymunedau ar draws y wlad. Bydd penderfyniadau'r Prif Swyddog Gweithredol nesaf yn helpu i lunio'r ffordd y bydd y rheilffordd yn gwasanaethu'r genedl am ddegawdau i ddod.

Yr un yw maint y cyfle a maint yr her. Bydd Great British Railways yn dod â rhagoriaeth weithredol, ymrwymiad diwyro i ddiogelwch, ffocws ar gwsmeriaid, treiddgarwch masnachol a meddwl strategol hirdymor at ei gilydd i ddarparu rheilffordd fodern sy'n addas i'r dyfodol. I lwyddo, bydd angen arweinydd eithriadol sy'n gallu ysbrydoli gweithlu amrywiol, adeiladu partneriaethau dibynadwy ar draws llywodraeth a diwydiant, harneisio arloesi technegol, a chyflawni canlyniadau mewn amgylchedd amlwg iawn.

Rydym yn chwilio am unigolyn â'r weledigaeth i ail-ddychmygu'r hyn y gellir ei gyflawni gan wasanaeth cyhoeddus, yr hygrededd i fagu hyder ymysg rhanddeiliaid, a'r penderfyniad i yrru newid ystyrlon a pharhaus. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn etifeddu sefydliad â chryfderau anhygoel a phobl dalentog, yn ogystal â'r fraint brin o lunio ei gyfeiriad i'r dyfodol o'r cychwyn.

Mae gan y rôl hon arwyddocâd cenedlaethol sylweddol. Mae'n cynnig y cyfle i helpu creu rheilffordd sy'n cyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch, yn gwasanaethu teithwyr a gwasanaethau nwyddau'n well, yn cefnogi twf economaidd, yn cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol ac yn cyflenwi gwerth parhaus i'r wlad.

Diolch am fynegi eich diddordeb yn Great British Railways. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Y Gwir Anrhydeddus Heidi Alexander AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth

Gwir Anrhydeddus
Heidi Alexander AS

GBR

Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Hoffem benodi Prif Swyddog Gweithredol cyntaf Great British Railways, arweinydd eithriadol ar gyfer rôl o bwys cenedlaethol gwirioneddol.

GBR fydd y meddwl cyfarwyddol newydd ar gyfer rheilffyrdd Prydain, dan berchnogaeth gyhoeddus, a fydd yn dwyn ynghyd yr arweinyddiaeth strategol sydd ei hangen i greu rheilffordd fwy integredig a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar deithwyr. Fel ei Phrif Swyddog Gweithredol cyntaf, bydd gennych gyfle prin i lunio'r sefydliad o'r cychwyn ac i chwarae rôl ganolog yn y gwaith o gyflawni rhaglen y Llywodraeth i ddiwygio'r rheilffordd.

Byddwch yn arwain y gwaith o sefydlu GBR fel un corff cenedlaethol, strategol, sy'n gyfrifol am fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol a gweithlu mawr, amrywiol. Byddwch yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rheilffordd ym Mhrydain yn ddiogel, ddibynadwy ac yn gynaliadwy'n ariannol, yn cyflawni perfformiad gwell, gwerth am arian i drethdalwyr a chanlyniadau gwell i deithwyr a gwasanaethau nwyddau.

Bydd ar y rôl angen gweledigaeth ac arweinyddiaeth ymarferol. Byddwch yn pennu cyfeiriad hirdymor GBR ac yn troi'r uchelgais hwnnw'n broses gyflenwi ystyrlon: yn meithrin diwylliant sy'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf, yn gwella effeithlonrwydd, yn cynnwys arloesi ac yn cynnal y safonau uchaf posibl o lywodraethu, atebolrwydd a sicrwydd i San Steffan.
Mae graddfa a gweledegdd y rôl hon yn galw am rywun â hanes cryf o arwain sefydliadau cymhleth trwy newid sylweddol. Bydd gennych farn strategol a masnachol, ymrwymiad personol dwfn i ddiogelwch a gwasanaeth cyhoeddus, sgiliau cyfathrebu cryf, a'r gallu i ysbrydoli hyder yn y bobl o'ch cwmpas.

Yn bennaf oll, rydym yn chwilio am arweinydd cynhwysol a chredadwy sy'n gallu meithrin cysylltiadau dibynadwy ar draws llywodraeth, y diwydiant rheilffordd, undebau llafur, cymunedau a'r cyhoedd ehangach. Mae hwn yn gyfle i sefydlu ac arwain sefydliad a fydd o bwys gwirioneddol i ddyfodol y rheilffyrdd ym Mhrydain.

Syr John Kingman
Cadeirydd, GBR

Amdano GBR

Great British Railways (GBR) yw'r corff newydd dan berchnogaeth gyhoeddus wrth galon rhaglen y Llywodraeth i ddiwygio'r rheilffordd. Wedi'i sefydlu i roi arweiniad strategol i'r rheilffyrdd ym Mhrydain, bydd GBR yn dod â thrac a threnau'n agosach at ei gilydd, gan greu rheilffordd genedlaethol fwy integredig ac atebol i deithwyr, gwasanaethau nwyddau a'r cymunedau a wasanaethir ganddi, tra'n helpu i yrru twf economaidd, cysylltu pobl â swyddi, addysg a gwasanaethau, a chefnogi cyfleoedd ledled y wlad.

Bydd GBR yn disodli'r model gweithredu darniog presennol gan sefydlu yn ei le sefydliad sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ac sy'n gyfrifol am alinio seilwaith, gweithrediadau a chanlyniadau i deithwyr. Ei ddiben yw cyflenwi rheilffordd ddiogel, ddibynadwy, hygyrch ac ariannol gynaliadwy, a rhoi atebolrwydd mwy eglur am yr arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gwasanaethau i deithwyr.

Yn ymarferol, bydd GBR yn ymgymryd â chyfrifoldebau allweddol presennol Network Rail a DfT Operator Ltd (DFTO), gan gynnwys prosesau rheoli seilwaith, amserlennu, tocynnau a gwasanaethau i deithwyr. Bydd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau i deithwyr dan berchnogaeth uniongyrchol GBR, neu wedi'u contractio trwyddo, gyda rhai o'r gwasanaethau yn yr Alban, Cymru, Glannau Mersi a Llundain yn cael eu darparu ar wahân gan gwmnïau trên yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Bydd GBR yn gweithredu fel rhan o agenda datganoli **GBR** Penodi Prif Swyddog Gweithredol ehangach y Llywodraeth, ac yn helpu iddo wneud cynnydd. Bydd yn gweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig, meiri ac awdurdodau strategol i sicrhau y caiff gwaith cynllunio'r rheilffordd genedlaethol ei lywio gan flaenoriaethau lleol a'i fod yn cefnogi twf economaidd yn seiliedig ar le, tai, cysylltedd a chyfleoedd. Gan gynnal manteision rhwydwaith cenedlaethol cydlynol, bydd GBR yn meithrin partneriaethau parhaol sy'n galluogi arweinwyr lleol a chymunedau i chwarae rhan ystyrlon yn y broses o lunio'r rheilffordd yn eu hardaloedd hwy. Trwy ei seilwaith, gorsafoedd a'r ystâd ehangach, bydd GBR hefyd yn cefnogi gwaith adfywio ac yn datgloi cyfleoedd ar gyfer tai, datblygu masnachol a buddsoddi mewn cymunedau ledled Prydain.

Gan weithredu ar raddfa genedlaethol sylweddol, bydd GBR yn goruchwylio gwariant blynyddol gwerth oddeutu £20 biliwn. Daw'r cyllid o grantiau gan yr Adran Drafnidiaeth, Transport Scotland a llwybrau eraill fel refeniw tocynnau, ffioedd mynediad ac incwm eiddo. Bydd GBR yn creu gweithlu o fwy na 100,000 o bobl trwy ddod â sefydliadau presennol fel Network Rail, DFTO a'r Cwmnïau Trên at ei gilydd.

I ddarpar arweinwyr, mae GBR yn cynrychioli cyfle prin i helpu llunio'r gwaith o drawsnewid gwasanaeth cyhoeddus mawr: gan greu rheilffordd fodern sy'n fwy syml i gwsmeriaid a mwy ymatebol i leoedd, ac sydd mewn sefyllfa well i gefnogi ffyniant economaidd, symudedd cymdeithasol ac uchelgeisiau amgylcheddol, a thwf hirdymor ym Mhrydain.

GBR

Pam fod y rôl hon o bwys

Y rheilffordd ym Mhrydain yw un o asedau pwysicaf y wlad yn genedlaethol. Bob dydd, mae'n cysylltu miliynau o bobl â chyflogaeth, addysg, gofal iechyd, teulu a hamdden. Mae'n helpu i fusnesau gyrraedd cwsmeriaid a marchnadoedd, yn cefnogi'r broses o symud nwyddau ar draws y wlad, ac yn cryfhau cyfansoddiad economaidd a chymdeithasol cymunedau bach a mawr. Mae gan y rheilffordd rhan hollbwysig i chwarae wrth i'r DU geisio ysgogi twf economaidd, gwella cysylltedd a chyflawni dyfodol mwy cynaliadwy.

Mae creu Great British Railways yn cynrychioli cyfle euraid i ail-lunio'r ffordd y mae'r rheilffordd yn gwasanaethu teithwyr, cwsmeriaid gwasanaethau nwyddau a threthdalwyr. Bydd y broses o ddod â thrac a threnau at ei gilydd o dan un meddwl cyfarwyddol yn creu mwy o atebolrwydd, yn gwella perfformiad ac yn sicrhau rheilffordd fwy integredig sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid i'r dyfodol.

Fel y Prif Weithredwr cyntaf, bydd gennych y cyfle prin i adeiladu sefydliad cenedlaethol newydd o'r llawr i fyny. Bydd eich arweinyddiaeth yn dylanwadu ar sefydliad sy'n gyfrifol am fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol, gweithlu mawr ac amrywiol, a gwasanaethau y mae miliynau o bobl yn dibynnu arnynt bob dydd.

Ychydig o rolau arwain sy'n cynnig y cyfuniad hwn o ran maint, cymhlethdod ac effaith gyhoeddus. Bydd penderfyniadau Prif Weithredwr cyntaf GBR yn helpu i lunio'r ffordd y bydd y rheilffordd ym Mhrydain yn cyfrannu at dwf economaidd, yn cefnogi cymunedau, yn galluogi cyfleoedd ac yn cyflawni dros genedlaethau'r dyfodol. Mae hwn yn gyfle i arweinydd eithriadol a ysgogir gan berfformiad a phwrpas i adael ei ôl parhaus trwy wasanaeth cyhoeddus.

Cipolwg ar y rôl

- Prif Weithredwr cyntaf Great British Railways
- Un o sefydliadau gweithredol mwyaf y DU
- Stiwardiaeth o wariant blynyddol gwerth oddeutu £20 biliwn
- Yn arwain gweithlu o 100,000 o bobl
- Yn gyfrifol am wasanaethau y mae miliynau o bobl yn dibynnu arnynt bob dydd
- Yn arwain un o'r diwygiadau mwyaf sylweddol i wasanaeth cyhoeddus ers cenhedlaeth

Cyfrifoldebau

Fel Prif Swyddog Gweithredol cyntaf Great British Railways (GBR), bydd gennych gyfle euraid i arwain gwaith trawsnewid a fydd yn creu rheilffordd effeithlon sy'n perfformio'n dda, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid, gyda diogelwch wrth ei chalon. Hefyd, bydd yn cydnabod ei rôl yn y gwaith o ysgogi twf economaidd, adeiladu tai newydd, hyrwyddo trafnidiaeth wyrdd a chreu swyddi da. Mae ehangder y swydd yn sylweddol; felly hefyd y cyfle i wneud gwahaniaeth i gymunedau ledled Prydain Fawr. Rydym yn chwilio am arweinydd eithriadol, cynhwysol sydd â'r weledigaeth, barn ac egni i gyflawni newid parhaol. Bydd gennych lefelau uchel o atebolrwydd cyhoeddus i'r Gweinidogion a'r swyddogion, a thrwy graffu dwys gan y cyfryngau. Byddai profiad uniongyrchol o'r sector rheilffordd o fantais ond nid yw'n angenrheidiol.

Arweinyddiaeth, diwylliant a thrawsnewid

- Goruchwylio'r broses o greu GBR, gan ddod â seilwaith, asedau a gweithrediadau gwahanol at ei gilydd yn un sefydliad ystwyth.
- Arwain GBR yn ei rôl o oruchwylio'r gwaith o redeg y rheilffordd a'i seilwaith yn strategol ac yn weithredol, gydag atebolrwydd dros weithrediadau bob dydd a pherfformiad diogel y rhwydwaith.
- Arwain a symbylu gweithlu mawr, amrywiol o oddeutu 100,000 o bobl gan greu diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, perfformiad a diogelwch.
- Adeiladu a symbylu tîm arwain gweithredol sy'n perfformio'n dda ac sydd â'r sgiliau a phrofiad cywir i ysgogi perfformiad ar draws y rheilffordd.
- Y gallu i arwain ar raddfa mewn sefydliad daearyddol amrywiol.
- Ochr yn ochr â Chadeirydd GBR, gweithredu fel wyneb cyhoeddus GBR o'r cychwyn, yn barod ac yn gallu gweithredu fel cyfathrebwr cyhoeddus cryf gan gynnwys yn y cyfryngau.

Cyflawni i Gwsmeriaid

- Gwella dibynadwyedd a phrydlondeb y rheilffordd a boddhad cwsmeriaid, a thyfu defnydd.
- Ysgogi arloesi a thwf masnachol tra'n cynnal safonau diogelwch sy'n flaenllaw yn fyd-eang.
- Llunio cynllun hirdymor Great British Railways a datblygu strategaethau aml-flwyddyn i'w wireddu.

Stiwardiaeth Ariannol a Gweithredol

- Gwella sefyllfa ariannol y rheilffordd trwy gynyddu refeniw, gyrru arbedion effeithlonrwydd, lleihau cymorthdaliadau net a chyflawni gwell gwerth am arian.
- Fel Swyddog Cyfrifo GBR, byddwch yn rhoi sicrwydd i San Steffan bod arian cyhoeddus yn cael ei rheoli'n gywir ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.
- Sicrhau bod gan GBR lywodraethiant cryf ac yn cael ei rhedeg i'r safonau uchaf posibl.
- Sicrhau y caiff y busnes ei weithredu'n ddiogel ac ysbrydoli diwylliant o gyd-gyfrifoldeb dros ddiogelwch trwy gydol y cwmni.
- Hyrwyddo diogelwch fel prif flaenoriaeth GBR, gan sicrhau ei fod wedi'i ymwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau, ymddygiad arweinyddiaeth a chyflawni gweithredol ar draws y sefydliad.

Perthynas â Rhanddeiliaid

- Fel Prif Swyddog Gweithredol corff cyhoeddus, meithrin perthynas cryf, dibynadwy â Gweinidogion, rheoleiddwyr, undebau, gweinyddiaethau datganoledig, Awdurdodau Cyfun Maerol a chyrff teithwyr.
- Cyfathrebu gweledigaeth glir i ddyfodol y rheilffordd, magu hyder ymysg teithwyr, cyflogeion, partneriaid yn y diwydiant, a rhanddeiliaid ehangach.
- Cynrychioli GBR mewn pwyllgorau seneddol a digwyddiadau cenedlaethol mawr.
- Dod â rhannau gwahanol o'r diwydiant at ei gilydd i gyflenwi rheilffordd sy'n perfformio'n dda.

Manyleb y Person

Bydd yr ymgeisydd delfrydol wedi arwain trawsnewid yn fedrus, yn gallu pennu cyfeiriad strategol clir, yn barod i weithio fel rhan o'r sector preifat, a chyflawni newid sefydliadol a diwylliannol ar raddfa fawr mewn amgylchedd cymhleth, gweithrediadol critigol. Bydd ganddynt sgiliau arweinyddiaeth strategol a masnachol rhagorol, meddylfryd o roi'r cwsmer yn gyntaf wedi'i ymwreiddio'n ddwfn, y gallu i oruchwylio gweithrediad y rheilffordd, ac ymrwymiad profedig i ddiogelwch, ynghyd â'r gallu i feithrin cysylltiadau dibynadwy â llywodraethau, rheoleiddwyr, undebau, partneriaid, cymunedau a'r cyfryngau er mwyn gyrru gwelliannau cyson o ran perfformiad, gwerth am arian a chanlyniadau i gwsmeriaid.

- Profiad o arwain trawsnewidiad cymhleth neu ar raddfa fawr (yn unrhyw sector).
- Hanes profedig o arwain newid sefydliadol a diwylliannol cymhleth.
- Arweinyddiaeth strategol a masnachol rhagorol, gyda hanes profedig o bennu a chyflawni strategaeth sefydliadol mewn amgylchedd cymhleth, gweithrediadol critigol; cyflawni gwelliannau cyson o ran perfformiad, costau a chanlyniadau i gwsmeriaid.
- Meddylfryd 'Cwsmer yn Gyntaf' – llunio a chyflenwi profiad ansawdd uchel i gwsmeriaid o un pen y daith i'r llall, a gyrru gwelliannau cyson o ran bodlonrwydd cwsmeriaid.
- Y gallu i feithrin perthnasau cynhyrchiol gydag ystod o randdeiliaid gan gynnwys llywodraethau, rheoleiddwyr, undebau, partneriaid masnachol, cymunedau a'r cyfryngau er mwyn diwallu anghenion gwahanol a gyrru perfformiad.
- Profiad o ymwreiddio diwylliant cryf o ddiogelwch, gofal ac atebolrwydd ar draws gweithrediadau cymhleth, gan sicrhau llesiant cydweithwyr, cwsmeriaid a'r cyhoedd.

Anogwn yn gryf i ymgeiswyr o bob cefndir ymgeisio, gan gynnwys rhai o du allan i'r sector rheilffordd sy'n gallu dangos profiad o arweinyddiaeth drosglwyddadwy. Gwerthfawrogwn lwybrau gyrfa ac arddulliau arwain amrywiol sy'n gallu ysgogi arloesi a newid sefydliadol. Bydd y rôl hon yn apelio i arweinwyr eithriadol sy'n cael eu hysgogi gan ddiben cymaint â pherfformiad. I'r rhai sy'n ceisio cyfle i ddefnyddio'u profiad ar gyfer ymdrech cenedlaethol, gwella gwasanaeth y mae miliynau o bobl yn dibynnu arno, a gadael ei ôl parhaol ar gymunedau, teithwyr a'r economi ehangach, ychydig iawn o rolau sydd â'r un arwyddocâd, amlygrwydd ac effaith â swydd Cyfarwyddwr Gweithredol cyntaf Great British Railways.

GBR Penodi Prif Swyddog Gweithredol

Sut i ymgeisio

Mae Saxton Bampfylde Ltd yn gweithredu fel ymgynghorydd asiantaeth gyflogaeth i'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer y penodiad hwn.

Dylai ymgeiswyr ymgeisio ar gyfer y rôl hon ar ein gwefan yn **roles.saxbam.com** gan ddefnyddio'r cod **OCAHA.**

Cliciwch ar y botwm 'apply' a dilynwch y cyfarwyddiadau i lanlwytho CV a llythyr eglurhaol, a chwblhewch y ffurflen fonitro cyfle cyfartal ar-lein*.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ar 26 Tachwedd 2026.

* Ni chaiff y ffurflen fonitro cyfle cyfartal ar-lein ei rhannu gydag unrhyw un sy'n asesu eich cais. Dylech ei chwblhau fel rhan o'r broses ymgeisio.

Hysbysiad data personol GDPR
Yn unol â chanllawiau GDPR, ni allwn brosesu eich Data Personol Sensitif (tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig, iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol) heb eich caniatâd pendant. Gofynnir ichi lenwi ffurflen ganiatâd wrth ymgeisio a pheidiwch â chynnwys unrhyw Ddata Personol Sensitif ar eich CV (er y gellir ei gynnwys yn eich llythyr eglurhaol os dymunwch). Cofiwch hefyd i beidio â chynnwys manylion cyswllt eich canolwyr heb iddynt roi eu caniatâd ymlaen llaw.

- **Darllenwch ein canllaw i ysgrifennu llythyron eglurhaol**

Great British Railways

Saxton Bampfylde